

# Iaith Gwaith:

Pwysigrwydd technoleg a chynllunio  
strategol i'r gweithle dwyieithog

The importance of technology and strategic  
planning for the bilingual workplace



**CYMRU**  
**2017**

Cynhadledd flynyddol Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith  
Annual conference of the International Association of Language Commissioners  
**17 Mai 2017, Canolfan Mileniwm Cymru**  
**17 May 2017, Wales Millennium Centre**



Dymuna Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg a Chadeirydd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, ddiolch i'r canlynol am eu nawdd a'u cefnogaeth tuag at y gynhadledd hon:



Mae VTCT yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant preifat er mwyn gwella cyflogadwyedd a chyfleoedd gyrfa dysgwyr, yn y DU ac yn rhngwladol. Rydym yn cynllunio ac yn cynnal cymwysterau o safon ryngwladol sy'n diwallu anghenion cyflogwyr tra'n cefnogi arloesedd mewn addysgu, dysgu ac asesu.

Diolch hefyd i:



Capital Law  
Eversheds Sutherland

Meri Huws, Welsh Language Commissioner and Chair of the International Association of Language Commissioners, wishes to thank the following for their sponsorship and support for this event:



VTCT works in partnership with employers, schools, colleges and private training providers to improve learners' employability and career prospects, both in the UK and internationally. We design and support world class qualifications which meet employer needs, whilst supporting innovation in teaching, learning and assessment.

Thanks also to:



Capital Law  
Eversheds Sutherland

Mae Marc Ansawdd Agored Cymru yn ddull o fesur rhagoriaeth rhaglenni dysgu. Mae'n cymeradwyo ac yn dathlu arferion dysgu a datblygu rhagorol yng Nghymru.



The Agored Cymru Quality Mark is a measure of excellence for learning programmes. It is an endorsement and celebration of outstanding learning and development practice in Wales.



# Croeso i Gymru

Mae'n faint gen i groesawu aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr iaith i Gymru eleni ar gyfer pedwaredd gynhadledd flynyddol y Gymdeithas hon.

Bydd y gynhadledd yn darparu cyfle euraid inni godi cwr y llen ar sefyllfa'r Gymraeg ac ystyried sut y mae defnydd arloesol o dechnoleg gwybodaeth a chynllunio'r gweithlu'n effeithiol yn gallu cynyddu'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol. Croeso arbennig hefyd i gyfeillion y Gymdeithas sy'n ymuno â ni heddiw – o Gymru a thu hwnt – gobeithiaf y byddwch chithau'n elwa ar y trafodaethau ac yn cael budd o dynnu ar brofiadau cymunedau ieithyddol eraill ar draws y byd.

Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dyma un o'r darnau cyntaf o ddeddfwriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol ei basio gyda phwerau deddfu newydd; ac mae'r Mesur yn datgan yn glir bod statws swydddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Fel Comisiynydd, mae gen i bwerau statudol i sicrhau'r statws hwn. Gwnaf hynny drwy osod safonau ar sefydliadau a rheoleiddio cydymffurfiaeth â nhw. Mae safonau'n sefydlu hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rwyf hefyd yn annog cydymffurfiaeth drwy weithio â sefydliadau a hawyluso cyfleoedd i drafod arferion da. Mae timau o fewn fy swyddfa'n canolbwyntio ar

ddylanwadu ar bolisi er mwyn sicrhau ystyriaeth i'r Gymraeg ac anghenion ei siaradwyr, a hefyd ar hybu defnydd o'r iaith gan sefydliadau nad oes gofyniad cyfreithiol arnynt i wneud hynny ar hyn o bryd.

Ers i safonau ddod yn weithredol, rydw i'n sicr wedi gweld agweddau tuag at yr iaith yn newid – mae pobl bellach yn gynyddol ymwybodol o'u hawliau, ac mae sefydliadau'n dangos ewyllys ac awydd i gydymffurfio.

Yn ein gwaith o ddydd i ddydd, mae'n anochel ein bod fel Comisiynwyr yn canolbwyntio ar faterion ein gwledydd ein hunain. Gall eraill sy'n sylwebu a chraffu ar ein gwaith gael eu temtio i'n gosod o fewn cyd-destunau ein llywodraethau yn unig. Mae bodolaeth y Gymdeithas, a'n cyfarfodydd, gweminarau a chynadreddau rheolaidd, yn fod i ni – ac eraill – edrych ar y darlun ehangach. Mae'n gyfle i'n hatgoffa ein hunain nad endidau ynysig yw Comisiynwyr iaith, ond ein bod yn rhan o rwydwaith rhyngwladol sy'n gweithio tuag at nod cyffredin o sefydlu a gwarchod hawliau ieithyddol.

Gan ddymuno croeso cynnes iawn ichi i Gymru, gobeithiaf y cawn gynhadledd sy'n ddifyr ac yn addysgiadol. Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio â chi weddill y flwyddyn.

I am honoured to welcome members of the International Association of Language Commissioners to Wales this year for our fourth annual conference.

The conference is a fantastic opportunity to offer an insight into the vitality of the Welsh language and to consider how pioneering use of information technology and effective workforce planning can increase the use of minority languages. I would also like to extend a special welcome to friends of the Association – from Wales and beyond – who are joining us today. I hope you will also benefit from the discussions and from hearing about the experiences of other linguistic communities around the world.

The Commissioner's role was created by the Welsh Language (Wales) Measure 2011. It was one of the first pieces of legislation the National Assembly passed with its new law-making powers; and the Measure clearly states that the Welsh language has official status in Wales.

As Commissioner, I have statutory powers to ensure this status. I do so by imposing standards on organisations and regulating compliance with them. Standards establish rights for people to use the Welsh language. I also encourage compliance by working with organisations and facilitating opportunities to discuss good practice. My officials also focus directly on

influencing government policy to ensure consideration is given to the Welsh language and the needs of its speakers, and on promoting the use of the language by organisations that are not currently legally required to do so.

Since standards have been introduced, I have certainly seen attitudes towards the language change – people are now increasingly aware of their rights, and organisations are showing the will and desire to comply.

In our day-to-day work, it is inevitable that we as Commissioners focus on issues relevant to our own countries and languages. It may also be tempting for others who provide commentary and scrutiny of our work to place us solely within the contexts of our governments. The existence of this Association, and our regular meetings, webinars and conferences, allow us – and others – to look at the wider picture. It is an opportunity to remind ourselves that Language Commissioners are not isolated entities, rather part of an international network that works towards a common goal of establishing and protecting language rights.

I wish you a very warm welcome to Wales, and I hope we will have a conference which is both interesting and informative. I look forward to continue working with you throughout the year.

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg a Chadeirydd Cymdeithas  
Ryngwladol y Comisiynwyr iaith

Meri Huws

Welsh Language Commissioner and Chair of the  
International Association of Language Commissioners



## Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith

.....  
Members of the  
International  
Association of Language  
Commissioners

# Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith



**François Boileau**

Comisiynydd  
Gwasanaethau  
Ffrangeg Ontario

François Boileau yw'r Comisiynydd Gwasanaethau Ffrangeg er mis Awst 2007. Wedi'r newid i'r Ddeddf Gwasanaethau Ffrangeg yn 2013, daeth yn swyddog annibynnol yn y Cynulliad Deddfu. Yna, ym mis Tachwedd 2016, ymestynnodd y Cynulliad ei gyfnod yn y swydd am bum mlynedd arall. Ei brif swyddogaethau yw derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd a chynnig argymhellion yngylch materion yn ymwneud â chydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Ffrangeg.

Cyn dechrau ar ei gyfnod fel Comisiynydd, bu François Boileau yn gynghorydd cyfreithiol i Swyddfa Comisiynydd leithoedd Swyddogol Canada lle bu'n amddiffyn achosion nodedig gerbron Goruchaf Lys Canada. Bu hefyd yn rhan allweddol o'r ymdrech i amddiffyn hawliau'r Ffrangeg drwy gynrychioli'r *Fédération des communautés francophones et acadienne du Canada* (FCFA) yn achos Montfort gerbron Llys Apêl Ontario.

Yn 2011, anrhyydeddwyd François Boileau ag Urdd Teilyngdod yr *Association des juristes d'expression française de l'Ontario* (AJEFO). Yn 2015, fe'i hanrhyydeddwyd ag Urdd Teilyngdod yr Adran Cyfraith Sifil gan Gyfadran y Gyfraith ym Mhrifysgol Ottawa.

# Members of the International Association of Language Commissioners



**François Boileau**

French Language  
Services Commissioner  
of Ontario

François Boileau has been the French Language Services Commissioner since August 2007. Following an amendment to the French Language Services Act in 2013, he became an independent officer of the Legislative Assembly. Subsequently, in November 2016, the Legislature renewed his term for another five years. His role consists mainly of receiving complaints from members of the public and making recommendations on matters pertaining to the implementation of the French Language Services Act.

Prior to beginning his mandate as Commissioner, François Boileau acted as legal counsel for the Office of the Commissioner of Official Languages where he defended landmark cases before the Supreme Court of Canada. He also played a key role in defending French-language rights by representing the *Fédération des communautés francophones et acadienne du Canada* (FCFA) in the Montfort case before the Ontario Court of Appeal.

In 2011, François Boileau was awarded the Order of Merit of the *Association des juristes d'expression française de l'Ontario* (AJEFO). In 2015, he received the Order of Merit of the Civil law section from the Faculty of Law of the University of Ottawa.



**Rónán Ó  
Domhnaill**

An Coimisinéir Teanga  
(Comisiynydd Iaith  
Iwerddon)

Penodwyd Rónán Ó Domhnaill yn Gomisiynydd Iaith ar 12 Mawrth 2014. Fe'i penodwyd gan Arlywydd Iwerddon wedi iddo gael ei enwebu gan y Llywodraeth, a derbyniwyd yr enwebiad yn unfrydol gan ddu dŷ yr Oireachtas (Dáil Éireann a Seanad Éireann).

Bu Rónán Ó Domhnaill yn gweithio fel newyddiadurwr am 16 mlynedd gyda chorff darlleu cenedlaethol Iwerddon, RTÉ a chyda TG4. Fe'i penodwyd yn Ohebydd Gwleidyddol i'r rhagleni newyddion Nuacht RTÉ/TG4 yn 2006, a bu'n gyflwynnydd ar ragleni gwleidyddol fel *The Week in Politics*.

Mae'r Comisiynydd Iaith yn adrodd yn uniongyrchol i Dai yr Oireachtas (y Senedd) ac mae'n aml yn siarad gerbron pwylgorau'r Oireachtas am hawliau ieithyddol ac am yr angen i warchod a chryfhau'r hawliau hynny.

Mae swyddfa An Coimisinéira Teanga yn sefydliad statudol sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus à Deddf leithoedd Swyddogol 2003.

Mae'r swyddfa'n ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd mewn achosion lle credir bod cyrff cyhoeddus wedi methu â chyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf leithoedd Swyddogol. Mae'r swyddfa hefyd yn ymchwilio i unrhyw gwynion diliys sy'n honni bod unrhyw ddeddf arall sy'n ymwneud â statws neu ddefnydd o'r Wyddeleg yn cael ei thorri.

Mae'r swyddfa yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am eu hawliau ieithyddol ac i gyrrff cyhoeddus am eu dyletswyddau ieithyddol hwythau dan y Ddeddf.



**Rónán Ó  
Domhnaill**

An Coimisinéir Teanga  
(Irish Language  
Commissioner)

Rónán Ó Domhnaill was appointed Language Commissioner on 12 March 2014. He was appointed by the President of Ireland following his nomination by the Government. Both Houses of the Oireachtas (Dáil Éireann and Seanad Éireann) unanimously accepted that nomination.

Rónán Ó Domhnaill spent 16 years as a journalist with the national broadcaster in Ireland, RTÉ and with TG4. He was appointed as Political Correspondent with *Nuacht RTÉ/TG4* in 2006. He also presented political programmes such as *The Week in Politics*.

The Language Commissioner reports directly to the Houses of the Oireachtas (Parliament). He often appears before Oireachtas committees to speak about language rights and the need to protect and strengthen those rights.

The office of An Coimisinéira Teanga is an independent statutory office with responsibility to monitor compliance by public bodies with the provisions of the Official Languages Act 2003.

The office investigates complaints from the public in cases where it is believed that public bodies may have failed to fulfil their obligations under the Official Languages Act. The office also enquires into any valid complaints regarding allegations that a provision of any other enactment relating to the status or use of Irish has been contravened.

The office provides advice to the public about their language rights and to public bodies about their language obligations under the Act.

## Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith



**Katherine d'Entremont**  
Comisiynydd leithoedd  
Swyddogol New Brunswick

Cafodd Katherine d'Entremont ei phenodi'n Gomisiynydd leithoedd Swyddogol New Brunswick am gyfnod o saith mlynedd ym mis Mehefin 2013.

Daw yn wreiddiol o Moncton, dinas ddwyieithog yn New Brunswick, a thystia fod ganddi 'wreiddiau cadarn yn y ddwy gymuned ieithyddol' â'i mam yn perthyn i'r gymuned ieithyddol Saesneg, a'i thad yn perthyn i'r gymuned Ffrangeg.

Mae gan Katherine d'Entremont brofiadau gyraol amrywiol ynghyd â Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Gradd Baglor mewn Addysg, Tystysgrif mewn Addysg i Oedolion a Thystysgrif yr Osgoode/Forum of Canadian Ombudsman - Essentials for Ombuds.

Yn gynnar yn ei gyrra, bu'n athrawes trochi yn y Ffrangeg cyn iddi ymuno â Gwasanaeth Cyhoeddus New Brunswick lle ymgymeroedd ag amryw o swyddi ar lefel uchel. Mae ei harbenigedd yn eang ac yn cynnwys ieithoedd swyddogol, llythrennedd, y sector dinesig, adnoddau dynol a chydreddoldeb yn y gweithle.

Fel swyddog deddfwriaethol annibynnol, mae gan y Comisiynydd fandad i ymchwilio, cynnig argymhellion, ac adrodd ar unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfaeth â'r Ddeddf leithoedd Swyddogol ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo cynnydd dwy iaith swyddogol y dalaith.

Mae'r Comisiynydd a'i staff yn ddilyn wrth geisio canfod problemau systemig yn y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn y ddwy iaith swyddogol gan gynnig argymhellion realistig a phragmatig i'r llywodraeth i'w chynorthwyo i wella ei chydymffurfaeth â'r Ddeddf leithoedd Swyddogol.



**Shannon Gullberg**  
Comisiynydd leithoedd  
Tiriogaethau'r  
Gogledd-orllewin

Ym mis Hydref 2015, cafodd Shannon Gullberg ei phenodi gan y Cynulliad Deddfu yn Gomisiynydd leithoedd am dymor o bedair blynedd. Bu'n gweithio fel cynghorydd cyfreithiol i'r Comisiynydd leithoedd rhwng 1996-2000, a chafodd ei phenodi'n Gomisiynydd leithoedd dros dro yn 2005.

Graddiodd Shannon Gullberg yn y Gyfraith o Brifysgol Alberta ym 1988 cyn symud i'r Gogledd i hyfforddi. Mae ei harbenigedd yn cynnwys cyfraith weinyddol, amdiffyn plant a gwarcheidiaeth. Mae wedi arwain sawl ymchwiliad amlwg dros y blynnyddoedd ar ran y Cynulliad Deddfu ac ar ran amryw o Weinidogion. Astudiodd hefyd ar gyfer gradd Baglor yn y Gwyddorau mewn Meddyginaeth Adfer o Brifysgol Alberta a hyfforddi fel patholegydd lleferydd am sawl blwyddyn cyn mynd i astudio'r Gyfraith.

Mae gan Diriogaethau'r Gogledd-orllewin un ar ddeg o ieithoedd swyddogol, yn cynnwys Saesneg, Ffrangeg, a naw iaith fridorol. Mae gan y cyhoedd hawliau yn ymwneud â'r ieithoedd hynny wrth iddynt gysylltu â'r Cynulliad Deddfu, ymwneud â'r llysoedd, a derbyn gwasanaethau gan y llywodraeth.

Gall y Comisiynydd leithoedd ymchwilio i unrhyw honiadau yn ymwneud â thorri'r Ddeddf leithoedd Swyddogol. Gall y Comisiynydd hefyd gynnig argymhellion i ddirprwy bennaeth yr adran neu'r sefydliad dan sylw. Gall y Comisiynydd leithoedd roi gwybod i'r Cynulliad Deddfu am y mater os nad yw'r adran yn y llywodraeth neu'r sefydliad yn ymatebi argymhellion, neu os yw'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r adran yn y llywodraeth neu'r sefydliad wedi cymryd camau bodhaol i ymdrin â'r broblem.

## Members of the International Association of Language Commissioners



**Katherine d'Entremont**  
Commissioner of  
Official Languages for  
New Brunswick

Katherine d'Entremont was appointed Commissioner of Official Languages for New Brunswick in June 2013 for a seven year mandate.

Originally from the bilingual city of Moncton, New Brunswick, she attests to having 'one foot firmly planted in each linguistic community', her mother being Anglophone, her father, Francophone.

With a Master's Degree in Public Administration, a Bachelor's Degree in Education, a Certificate in Adult Education and the Osgoode/Forum of Canadian Ombudsman Certificate Essentials for Ombuds, Katherine d'Entremont has a diverse work experience.

After spending her early career years teaching French immersion, she joined the New Brunswick Public Service where she held various senior level positions. Her expertise covers many fields such as official languages, literacy, the municipal sector, human resources and workplace equity.

As an independent legislative officer, the Commissioner has a mandate to investigate, report on and make recommendations with regard to compliance with the Official Languages Act and to promote the advancement of both official languages in the province.

The Commissioner and staff strive to identify systemic issues in the provision of public services in both official languages and make realistic and pragmatic recommendations to government to help them improve their compliance with the Official Languages Act.



**Shannon Gullberg**  
Northwest Territories Languages  
Commissioner

In October 2015, Shannon Gullberg was appointed by the Legislative Assembly as Languages Commissioner for a four year term. She had worked as a legal counsel for the Languages Commissioner from 1996-2000, and was appointed as interim Languages Commissioner in 2005.

Shannon Gullberg graduated from law school at the University of Alberta in 1988 and immediately went North to practice. Her areas of practice have included administrative law, child protection and guardianship. Over the years she has also conducted high profile investigations for the Legislative Assembly and various Ministers. She also obtained a Bachelor of Science degree in Rehabilitation Medicine (with distinction) from the University of Alberta and practiced as a speech pathologist for several years before attending law school.

The Northwest Territories has eleven official languages including English, French and nine Aboriginal languages. The public has rights with respect to those languages when communicating with the Legislative Assembly, dealing with the courts, and receiving government services.

The Languages Commissioner can investigate allegations that the Official Languages Act has been violated. The Commissioner can make recommendations to the Deputy Head of the department or agency in question. The Languages Commissioner can report the matter to the Legislative Assembly if a government department or agency does not respond to the recommendations, or if the Languages Commissioner feels the government department or agency has not taken adequate steps to address issues.

# Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith



**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg

Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dechreuodd Meri Huws fel y Comisiynydd cyntaf ar 1 Ebrill 2012. Mae'n gyfrifol am ysgrifennyddiaeth Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith ers mis Mawrth 2015 ac yn Gadeirydd ar y Gymdeithas ers mis Mawrth 2016.

Cyn ei phenodi yn Gomisiynydd, bu Meri Huws yn Gadeirydd ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2011, a hefyd yn aelod o'r Bwrdd o 1993 hyd 1997.

Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Uwchradd Abergwaun cyn astudio gradd mewn Cyfraith a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Astudiodd am radd uwch yng Ngholeg y Santes Anne, Rhdydchen, a hyfforddi i fod yn weithwraig gymdeithasol, gan weithio yn y maes am sawl blwyddyn yng ngogledd-orllewin Cymru. Aeth ati i ddilyn gyrfa ym myd addysg uwch yn yr 80au a'r 90au - bu'n darlithio yn y Coleg Normal, Bangor, ac ym Mhrifysgol Casnewydd cyn mynd ati i weithio am gyfnod yn Swyddfa Academaidd Prifysgol Dinas Dulyn. Bu hefyd yn Gadeirydd ar Gymdeithas yr Iaith Gymraeg rhwng 1981 a 1983.

Ym 1999 symudodd i weithio i Brifysgol Bangor fel Dirprwy Is-ganhellor, a bu yn y swydd am ddeng mlynedd. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Is-ganhellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2009, cyn cael ei phenodi'n Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n wyneb adnabyddus ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae'n cael ei gwahodd yn aml i roi dystiolaeth i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i annerch mewn cynadleddau a chyfarfodydd cyhoeddus ledled y wlad, ac i siarad ar raglenni newyddion a materion cyfoes.

# Members of the International Association of Language Commissioners



**Meri Huws**  
Welsh Language Commissioner

The office of Welsh Language Commissioner was created by the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Meri Huws started as the first Commissioner on 1 April 2012. She is responsible for the secretariat of the International Association of Language Commissioners since March 2015 and Chair of the Association since March 2016.

Before being appointed as Commissioner, Meri Huws chaired the Welsh Language Board from 2004 to 2011, and was also a member of the Board from 1993 until 1997.

She received her education at Fishguard High School before studying a degree in Law and Politics at the University of Wales, Aberystwyth. She studied for a postgraduate degree at St Anne's College, Oxford, and trained to be a social worker, based for many years in north-west Wales. She followed a career in higher education in the 80s and 90s, lecturing in the Normal College, Bangor, and Newport University before working for a period in Dublin City University. She also chaired Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (the Welsh Language Society) from 1981 to 1983.

In 1999 she moved to work at Bangor University as Deputy Vice-chancellor, and was in the post for ten years. She was appointed the Deputy Vice-chancellor of the University of Wales Trinity St David in 2009, before being appointed as Welsh Language Commissioner. She is a familiar face in the public life of Wales. She is often invited to give evidence to National Assembly for Wales committees, to address conferences and meetings across the country, and to talk on news and current affairs programmes.



**Manuel Lezertua**  
Ararteko –  
Ombudsmon Gwlad  
y Basg/Amddiffynnwr  
Hawliau Dinasyddion

Ym mis Mehefin 2015 cafodd Manuel Lezertua ei ethol gan y Senedd yn Ararteko, sef Ombudsmon Gwlad y Basg/Amddiffynnwr Hawliau Dinasyddion, a hynny'n cynnwys hawliau ieithyddol.

Derbyniodd radd anhydedd yn y Gyfraith o Brifysgol Deusto (Bilbao) ym 1980, ac yna graddiodd ag LLM o King's College, Llundain, ym 1982.

Gweithiodd fel swyddog i Adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyflawnder Llywodraeth Gwlad y Basg rhwng 1983 a 1985, ac fel Cyfreithiwr i Lys Cyfansoddiadol Sbaen rhwng 1992 a 1994.

Yn ogystal â'i amryfal swyddi fel swyddog ryngwladol parhaol i Gyngor Ewrop, bu'n swyddog cyfreithiol yn Llys Hawliau Dynol Ewrop rhwng 1988 a 1992; yn Brif Ysgrifennydd i'r Pwyllgor Gweinidogion rhwng 1994 a 1996, yn gyfrifol am faterion hawliau dynol gan gynnwys hawliau lleiafrifol; bu'n Gyfarwyddwr Swyddfa Comisiynydd Hawliau Dynol Ewrop rhwng Mehefin 2004 a Mai 2007, ac yn Gyfarwyddwr Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop rhwng Mawrth 2013 a Mehefin 2015, sefydliad i hyrwyddo democratioeth leol a rhanbarthol yn Ewrop.

Mae gan Manuel Lezertua nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud â Chyfraith Hawliau Dynol, integreiddio Ewropeaidd, a materion Cyfraith Droseddol Ryngwladol. Un o'i gyhoeddiadau mwyaf nodedig yw *The case law of the European Court of Human Rights in linguistic matters*.



**Manuel Lezertua**  
Ararteko – Ombudsman  
of the Basque Country/  
Citizen's Rights  
Defender

In June 2015, Manuel Lezertua was elected by Parliament as Ararteko – Ombudsman of the Basque Country/Citizen's Rights Defender, including linguistic rights.

He graduated with honours in Law at Deusto University (Bilbao) in 1980, and King's College (London) in 1982 (LLM).

He served as an official of the Basque Government, Department of Public Administration and Justice from 1983 to 1985, and as a Lawyer for the Constitutional Court of Spain from 1992 to 1994.

As well as holding many other posts as a permanent international official of the Council of Europe, he was a legal officer in the European Court of Human Rights from 1988–1992; a Principal Administrator in the Committee of Ministers from 1994–1996, in charge of Human Rights issues, including minority rights; Director of the Office of the European Commissioner for Human Rights (July 2004–May 2007); and Director of the Congress of Local and Regional Authorities of Europe (March 2013–June 2015), an institution promoting local and regional democracy in Europe.

He has many publications in Human Rights Law, European integration and International Criminal Law issues. One publication worth particular mention is *The case law of the European Court of Human Rights in linguistic matters*.

# Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith



**Slaviša  
Mladenović**  
Comisiynydd Iaith,  
Gweriniaeth Kosovo

Penodwyd Slaviša Mladenović yn Comisiynydd Iaith ar 19 Rhagfyr 2012. Mae ganddo radd gysylltiol mewn Economeg yn ogystal â gradd BSc o'r Rochester Institute of Technology mewn Economeg ac Ystadegaeth a Rheoli fel prif bynciau ac Astudiaethau'r Gyfraith fel ail bwnc. Ar hyn o bryd, mae'n astudio ar gyfer gradd MBA ym maes Rheoli Cyffredinol ym Mhrifysgol Sheffield.

Cyn ei benodi'n Comisiynydd Iaith, bu Slaviša Mladenović yn gweithio i OSCE Mission in Kosovo ym maes dadansoddi, gohebu a'r cyfryngau.

Yn ogystal â'i brofiadau yn y byd gwaith ac ym myd addysg, mae wedi derbyn hyfforddiant mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, integreiddio Ewropeaidd, a negodi gan sefydliadau anrhydeddus megis Sciences Po yn Ffrainc, a Phrifysgol Sheffield yn Lloegr.

Ar wahân i'w famiaith, Serbeg, mae hefyd yn rhugl mewn Albaneg a Saesneg.

Cafodd Swyddfa Comisiynydd Iaith Kosovo ei sefydlu ym mis Ebrill 2012 dan nawdd Swyddfa'r Prif Weinidog yn unol â Rheoliad 07/2012. Mae'r swyddfa'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â chyfraith sy'n ymwneud â ieithoedd, cydweithio â sefydliadau er mwyn gwella eu cydymffurfiaeth a'r gyfraith, a gwarchod a hyrwyddo hawliau ieithyddol pob cymuned yn Kosovo.

# Members of the International Association of Language Commissioners



**Slaviša  
Mladenović**  
Language  
Commissioner,  
Republic of Kosovo

Slaviša Mladenović was appointed as Language Commissioner on 19 December 2012. He holds an Associate Degree in Economics, as well as a BSc degree from the Rochester Institute of Technology with a major in Economics & Statistics and Management, and a minor in Legal Studies. Currently, he is pursuing the MBA degree in the field of General Management at the University of Sheffield.

Prior to being appointed as a Language Commissioner, Slaviša Mladenović worked for the OSCE Mission in Kosovo in the field of analysis, reporting, and media.

As well as his educational and work experience, he has also attended training in the fields of public administration, European integration, and negotiation in prestigious institutions such as Sciences Po, France, and University of Sheffield, England.

Apart from his mother tongue (Serbian) he is also fluent in Albanian and English.

The Office of the Language Commissioner in Kosovo was established in April 2012 under the auspices of the Office of the Prime Minister, pursuant to Regulation no.07/2012. The office is mandated to monitor the implementation of the law on languages; works with institutions to improve the implementation of the law and to promote and protect the rights of all language communities in Kosovo.



**Rafael Ribó**  
Ombudsman Seneddol  
Catalonia

Cafodd Rafael Ribó ei ethol yn Ombudsmon Seneddol Catalonia yn 2004 (tymor cyntaf) a'i ailethol yn unfrydol yn 2009 (ail dymor).

Mae ganddo radd mewn Economeg a gradd yn y Gyfraith o Brifysgol Barcelona, a doethuriaeth mewn Gwyddoniaeth Gwleidyddiaeth, Economeg a Busnes o'r un brifysgol. Mae ganddo hefyd radd Meistr yn y Celfyddydau mewn Gwyddoniaeth Wleidyddol o The New School for Social Research, Efrog Newydd.

Mae'n ddarlithydd mewn Gwyddoniaeth Wleidyddol a Gweinyddol a bu'n darlithio ym Mhrifysgol Barcelona a phrifysgolion eraill ers 1970. Ef yw awdur y traethawd doethuriaeth cyntaf a ysgrifennwyd yn y Catalaneg ers y Rhyfel Cartref: *The concept of political culture according to Almond: research about the political specificity of peoples* (1974).

Fel Aelod yn Senedd Catalonia, cafodd ei ethol yn Ysgrifennydd Cyffredinol y PSUC (Plaid Sosialaidd Unedig Catalonia) ym 1986, a bu'n gwasanaethu fel AS yn Senedd Catalonia tan ddiweddu y chweched ddeddfwrfa (1980–2001) ac fel AS yn Senedd Sbaen (1993–1995). Bu hefyd yn llywydd y blaid wleidyddol *Iniciativa per Catalunya* (1987–2000).

Rafael Ribó yw llywydd presennol y Bwrdd Ewropeaidd yn yr International Ombudsman Institute (IOI) y mae'n aelod ohono ers 2006. Ef hefyd a sefydlodd yr Eyes of the World Foundation yn 2001.



**Rafael Ribó**  
Parliamentary  
Ombudsman of  
Catalonia

Rafael Ribó was elected Parliamentary Ombudsman of Catalonia in 2004 (first term) and unanimously re-elected in 2009 (second term).

With degrees in Economics and Law from the University of Barcelona, he holds a PhD in Political, Economic and Business Science from the same University and is Master of Arts in Political Science from The New School for Social Research of New York.

He is a university lecturer of Political and Administration Science and since 1970 has taught at the University of Barcelona and other universities. He is the author of the first doctoral thesis written in Catalan since the Civil War: *The concept of political culture according to Almond: research about the political specificity of peoples* (1974).

Member of the Catalan Assembly, he was elected Secretary General of the PSUC (Unified Socialist Party of Catalonia) in 1986, he has served as MP in the Catalan Parliament until the end of the sixth legislature (1980–2001), MP in the Spanish Parliament (1993–1995) and president of the *Iniciativa per Catalunya* political party (1987–2000).

Rafael Ribó is currently the president of the European Board in the International Ombudsman Institute (IOI), of which he is a part since 2006. He was also the founder of the Eyes of the World Foundation in 2001.

# Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith



**Ghislaine  
Saikaley**

Comisiynydd dros dro  
Leithoedd Swyddogol  
Canada

Mae Ghislaine Saikaley wedi bod yn gweithio yn y sector gwasanaethau cyhoeddus ers 31 o flynyddoedd, ac fel swyddog gweithredol am 16 o'r rheini. Mae ganddi brofiad amrywiol ac eang o weithio fel uwch reolwr yn ei gwaith gyda chomisiynau, byrddau a thribiwnlysoedd gweinyddol lle bu'n rhoi cyngor a chefnogaeth i swyddogion gweithredol. Mae ganddi wybodaeth drylwyr o faterion ym meysydd y gyfraith ac unioni yn ogystal â mewnfudo ac ieithoedd swyddogol. Yn ystod ei gyrrfa academaidd a phroffesiynol, daeth i arbenigo mewn ymchwiliadau, archwiliadau, datrys gwrthdaro a staffio ar sail cymhwysedd. Mae hi, ar hyn o bryd, yn cwblhau dystysgrif mewn Rheolaeth Ddarbodus.

Wedi iddi dderbyn gradd baglor mewn Trosedddeg, dechreuodd Ghislaine Saikaley ei gyrrfa yn gweithio i Wasanaethau Unioni Canada ym 1985 a thros y 14 mlynedd ddilynol bu'n gwneud amryw o swyddi yno, nifer o'r rheini'n swyddi rheoli, yn y rhanbarthau ac yn y pencadlys.

Ym 1999, gwnaeth yn fawr o'i sgiliau datblygu polisiau rhyddhau amodol ac ymunodd â'r Bwrdd Parol Cenedlaethol fel Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Archwiliadau a Thrugared/Pardynau. Hi oedd Cyfarwyddwr Gweithrediadau Comisiwn Gwasanaeth Cyhoeddus Cangen Atebolrwydd Canada rhwng 2000 a 2003.

Yn 2003, ymunodd â Bwrdd Mewnfudwyr a Ffoaduriad Canada (IRB) yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Mewnfudo, un o dri thribiwnlys yr IRB. Rhwng 2003 a 2008 hi oedd gwarcheidwad ieithoedd swyddogol yr IRB.

Ymunodd Ghislaine Saikaley â swyddfa'r Comisiynydd leithoedd Swyddogol ym mis Gorffennaf 2008 fel Comisiynydd Cynorthwyl y Gangen Sicrhau Cydymffurfiaeth. Mae'n gyfrifol am ymchwiliadau, archwiliadau a mesur perfformiad yn unol â gofynion y Ddeddf leithoedd Swyddogol.

# Members of the International Association of Language Commissioners



**Ghislaine  
Saikaley**

Interim Commissioner  
of Official Languages of  
Canada

Ghislaine Saikaley has worked in the public service for 31 years, 16 of them as an executive. She has considerable and varied experience as a senior manager from her work in commissions, boards and administrative tribunals, where she provided advice and support to executives. She has a wide knowledge of the issues in the fields of law and corrections, as well as immigration and official languages. During her academic and professional careers, she has developed an expertise in investigations, audits, conflict resolution and competency-based staffing. She is currently completing a certificate in Lean Management.

After earning her bachelor's degree in Criminology, Ghislaine Saikaley began her career with Correctional Service Canada in 1985 and over the next 14 years held various positions, many of which were in management, both in the regions and at headquarters.

In 1999, she took her skills in developing conditional release policies and joined the National Parole Board as the Director of Investigations/Audits and Clemency/Pardons. From 2000 to 2003 she was the Director of Operations at the Public Service Commission of Canada's Recourse Branch.

In 2003, she joined the Immigration and Refugee Board of Canada (IRB) as the Director General of the Immigration Division, one of the three IRB tribunals. From 2003 to 2008, she was the official languages champion at IRB.

Ghislaine Saikaley joined the Office of the Commissioner of Official Languages in July 2008 as the Assistant Commissioner of the Compliance Assurance Branch. She is responsible for investigations, audits and performance measurement pursuant to the provisions of the Official Languages Act.



**Bart Weekers**  
Ombudsmon Fflandrys

Penodwyd Bart Weekers yn Ombudsmon Fflandrys yn 2010. Yn sgil ei swydd, mae'n gyfrifol am ymchwilio i sefyllfaedd lle mae dinasyddion yn anfodlon. Er bod y berthynas rhwng y llywodraeth a'r dinasyddion yn un lefn ar y cyfan, mae problemau'n codi o bryd i'w gilydd. Gall y rheini gynnwys dirwyon anhag am osgoi tâl, problemau yngylch grant ar gyfer astudio, arogl, sŵn neu unrhyw boendod arall mewn ardal. Pan ddaw cwyn gan ddinasyddion yn erbyn y llywodraeth, mae'r ombudsmon a'i dim yn ceisio datrys y broblem.

Astudiodd Bart Weekers y Gyfraith a Gwyddorau Cyfathrebu yn Namur, Louvain a Liege, a threuliodd gyfnod rhwng 2000 a 2010 yn gweithio i Gyngor y Wladwriaeth. Mae'n ymddiddori yn anfodlonrwydd dinasyddion yngylch ymwneud y llywodraeth â'u partneriaid: anfodlonrwydd yngylch ysgolion a chartrefi gofal yn ogystal â phroblemau â biliau trydan neu gymorth glanhau drwy gynlluniau sieciau gwasanaeth. Ei waith ef yw chwilio am atebion boddhaol i anfodlonrwydd o'r fath.



**Bart Weekers**  
Flemish Ombudsman

Bart Weekers has been the Flemish Ombudsman since 2010. As such, he is responsible for looking into situations where citizens are dissatisfied. While things generally run well between government and citizens, occasionally problems arise. Examples include an unjustified fine for fare-dodging, problems with a study grant, smells, noise or other nuisances in a neighbourhood. Whenever citizens have problems with the government, the ombudsman and his team try to find a solution.

Bart Weekers studied Law and Communication Sciences in Namur, Louvain and Liege, and worked for the Council of State between 2000 and 2010. He is currently fascinated by citizen dissatisfaction with things the government is doing with partners: discontent with schools, nursing homes, but also problems with electricity bills or cleaning help via service cheques. It's his task to look for ways to provide high-quality answers to such discontent.

# Aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith



▷ ᓄᓇᓘᓐᓱᓘ ᑕᒪᒪᒪ ᓄᒪᒪᒪ ᓂᒪᒪᒪ  
Uqauhinut Kamisinaup Havakvia Nunavummi  
Office of the Languages Commissioner of Nunavut  
Bureau du commissaire aux langues du Nunavut

## Comisiynydd Ieithoedd Nunavut

Mae Comisiynydd ieithoedd Nunavut yn swyddog annibynnol i'r Cynulliad Deddfu a benodir am gyfnod o bum mlynedd gan Gomisiynydd Nunavut ar argymhelliad y Cynulliad Deddfu. Maent wrthi ar hyn o bryd yn penodi Comisiynydd newydd.

Mae'r iaith Inuit, Saesneg a Ffrangeg oll yn ieithoedd swyddogol yn Nunavut, ac mae dwy ddeddf i iaith swyddogol ganddynt: yr Official Languages Act (OLA) a'r Inuit Language Protection Act (ILPA).

Mae'r OLA yn amlinellu'r gofynion o ran gwasanaethau a chyfathrebu yn yr ieithoedd swyddogol. Mae gan y cyhoedd hawl i gyfathrebu a derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith gan y Llywodraeth, asiantaethau cyhoeddus, y Cynulliad Deddfu, Llys Cyflawnder Nunavut a thribiwnlysoedd eraill.

Nod yr ILPA yw gwarchod, hyrwyddo ac adfywio'r iaith Inuit. Mae'r Ddeddf yn gorchymyn bod Llywodraeth Nunavut yn cymryd camau penodol er mwyn gwarchod yr iaith Inuit. Mae hynny'n cynnwys:

- Hawliau addysgol, hyfforddiant yn yr iaith Inuit a dysgu'r iaith i oedolion
- Hawl i weithio drwy gyfrwng yr iaith Inuit mewn sefydliadau dinesig
- Rheidrwydd ar fwrdeistrefi yn ogystal â'r sectorau preifat a chyhoeddus, yn cynnwys sefydliadau ffederal a dinesig, i gyfathrebu a chynnig gwasanaethau yn yr iaith Inuit.

Nod Swyddfa'r Comisiynydd ieithoedd yw hyrwyddo a gwarchod hawliau ieithyddol y Nunavummiut sy'n cael eu cadw yn neddfwriaeth iaith Nunavut. Mandad y swyddfa yw:

- Addysgu'r Nunavummiut am eu hawliau ieithyddol
- Addysgu a chyngori sefydliadau dinesig a bwrdeistrefi o'u rhwymedigaethau ieithyddol
- Monitro'r ohebiaeth a'r gwasanaethau y mae sefydliadau dinesig a bwrdeistrefi yn eu darparu i'r cyhoedd
- Addysgu a pharatoi'r sector preifat a'r sefydliadau ffederal ar gyfer y gofynion a fydd yn cael eu gosod arnynt yn y dyfodol ynghylch eu gohebiaeth a'u gwasanaeth
- Archwilio, neu hwyluso datrysiaid, ac argymhell camau gweithredu er mwyn cywiro sefyllfa
- Cefnogi a monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iaith Nunavut.

# Members of the International Association of Language Commissioners



▷ ᓄᓇᓘᒪᒪᒪ ᑕᒪᒪᒪ ᓄᒪᒪᒪ ᓂᒪᒪᒪ  
Uqauhinut Kamisinaup Havakvia Nunavummi  
Office of the Languages Commissioner of Nunavut  
Bureau du commissaire aux langues du Nunavut

## Languages Commissioner of Nunavut

The Languages Commissioner of Nunavut is an independent officer of the Legislative Assembly appointed for a five-year term by the Commissioner of Nunavut on the recommendation of the Legislative Assembly. They are currently in the process of recruiting a new Commissioner.

The official languages in Nunavut are the Inuit language, English and French and they have two language acts: the Official Languages Act (OLA) and the Inuit Language Protection Act (ILPA).

The OLA sets out service and communication requirements for the official languages. Members of the public have the right to communicate with and receive services in the official language of their choice from the Government, the public agencies, the Legislative Assembly and the Nunavut Court of Justice and other tribunals.

The ILPA sets out to protect, promote and revitalize the Inuit language. The Act mandates the Government of Nunavut to take specific measures to safeguard the Inuit language. It includes:

- Educational rights, Inuit language instruction and adult language acquisition and upgrading
- The right to work in the Inuit language in territorial institutions
- The obligation for municipalities as well as the private and public sectors, including federal and territorial institutions, to communicate and offer services in the Inuit language.

The Office of the Languages Commissioner's mission is to promote and safeguard the language rights of Nunavummiut enshrined in Nunavut's language legislation. The mandate of the office is:

- To inform the Nunavummiut of their language rights
- To inform and advise territorial institutions and municipalities of their language obligations
- To monitor territorial institutions and municipalities' communication with and services to the public
- To inform and prepare the private sector and the federal institutions of their future communication and service requirements
- To investigate, or facilitate resolution, and to recommend corrective actions
- To support and monitor the implementation of the Nunavut language legislation.



## Siaradwyr y gynhadledd

.....

Conference speakers

## Siaradwyr y gynhadledd



Agorwyd drysau Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad am y tro cyntaf ar 5 Medi 2016 er mawr lawenydd i bobl ardal Grangetown a Thre-biwt. Dyma'r ugeinfed ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ond yr unig un yn y rhan hon o'r ddinas.

Y penneth yw Mrs Rhian Carbis ac roedd hi wrth ei bod yn cael cwrdd â'r plant cyntaf i gamu dros rinio yr ysgol:

Mae'n faint ac yn anrhydedd cael bod yn bennaeth ar yr ysgol, ac anodd yw cyfleu'r brwdryfedd a'r cyffro rwy'n eu teimlo wrth feddwl am ei phresennol a'i dyfodol. Mae cyfle gennym yma i fod yn rhan greiddiol o'r gymuned leol, ac rydym yn hynod falch o'n lleoliad yn un o ardalauedd mwyaf amrywiol ac amlieithog Caerdydd.

Arwyddair yr ysgol yw 'Angor cadarn cyn hwyllo'r don' a'i nod yw rhoi cyfleoedd i bob plentyn ddatblygu ei sgiliau fel ei fod yn barod i godi angor a hwyllo allan i'r byd mawr. Ac mae logo'r ysgol yn brawf ei bod yn awyddus bod pob disgylb yn ymfalchiö yn yr ardal a'i threftadaeth.

# Conference speakers



The Welsh primary school, Ysgol Hamadryad, first opened its doors on 5 September 2016, much to the joy of the people of Grangetown and Butetown. This is the twentieth Welsh medium school in Cardiff, but the only one in this part of the city.

Mrs Rhian Carbis is the school's head and she was thrilled to meet the first children to step through the school gates:

It's a true honour to be the head of the school, and it's difficult to convey the enthusiasm and excitement that I feel as I think about the school's present and future. We have an opportunity to be part of the local community, and we are very proud of our location here in one of the most varied and multilingual areas of Cardiff.

The school motto is 'Angor cadarn cyn hwylio'r don' [Strong anchor before setting sail] and its aim is to give each child the opportunity to develop the necessary skills so as to be prepared to weigh anchor and sail out into the great, wide world. The school's logo also indicates that each pupil should be proud of their area and heritage.

## Siaradwyr y gynhadledd



**Alun Davies AC**  
Gweinidog y Gymraeg a  
Dysgu Gydol Oes

Cafodd Alun Davies ei eni yn Nhredegar ac aeth i Ysgol Gyfun Tredegar cyn mynd i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth i astudio Gwleidyddiaeth. Yno, cafodd ei ethol yn Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru. Bu'n gweithio i ddechrau fel ymgrychyd dros faterion amgylcheddol gyda'r Gronfa Natur Fyd-eang, ac wedyn bu'n ymgrychyd dros faterion sy'n ymwneud â thlodi gydag Oxfam.

Bu Alun yn Rheolwr Materion Cyhoeddus a Chorfforaethol gyda Hyder, a oedd yn cyfuno prif gyfleoedd Cymru, bu hefyd yn Bennaeth Materion Cyhoeddus gydag Awdurdod Ynni Atomig y DU cyn cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol i S4C. Yn 2004, sefydlodd Bute Communications, ei ymgynghoriaeth materion cyhoeddus ei hun.

Ar 13 Mai 2011, cafodd Alun ei benodi'n Ddirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhagleni Ewropeaidd, a rhwng 14 Mawrth 2013 ac 8 Gorffennaf 2014, ef oedd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Fe'i penodwyd yn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 19 Mai 2016.

## Conference speakers



**Alun Davies AM**  
Minister for Lifelong  
Learning and Welsh  
Language

Alun Davies was born in Tredegar and went to Tredegar Comprehensive School followed by the University College of Wales, Aberystwyth where he read Politics. He was elected President of National Union of Students Wales. He first worked as a campaigner on environmental issues for the World Wide Fund for Nature, and later as a poverty campaigner for Oxfam.

Alun worked as Public and Corporate Affairs Manager for Hyder which combined Wales' main utilities. He was Head of Public Affairs at the UK Atomic Energy Authority, and later became Director of Corporate Affairs for S4C. In 2004 he established Bute Communications, his own public affairs consultancy.

On 13 May 2011 Alun was appointed Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes. Between 14 March 2013 and 8 July 2014 Alun was Minister for Natural Resources and Food. Alun was appointed Minister for Lifelong Learning and Welsh Language on 19 May 2016.



**Iestyn Davies**  
Chief Executive,  
ColegauCymru

Iestyn Davies is the Chief Executive of ColegauCymru, a charity and limited company that raises the profile of further education among decision-makers in order to improve educational opportunities in Wales. It is a member-led body, representing all 14 further education colleges and institutions in Wales.

Iestyn is a graduate in Philosophy and Welsh from Swansea University and holds an MA in Political Communications from Cardiff University. During his career, Iestyn has worked in both the business and voluntary sectors as well as in education. He has been a Lay Inspector with Estyn, a Governor at Cardiff Metropolitan University as well as at his local Welsh-medium primary school. Iestyn was a member of the shadow board of Qualifications Wales. With two school age children, he has a keen personal and professional interest in the provision of high quality learning and skills in Wales.



**Iestyn Davies**  
Prif Weithredwr,  
ColegauCymru

Iestyn Davies yw Prif Weithredwr ColegauCymru, elusen a chwmni cyfyngedig sy'n codi proffil addysg bellach ymysg sefydliadau lle gwneir penderfyniadau er mwyn gwella cyfleoedd addysgol yng Nghymru. Mae'n gorff sy'n cael ei arwain gan aelodau, ac mae'n cynrychioli pob un o'r 14 coleg a sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

Mae gan Iestyn radd mewn Athroniaeth a Chymraeg o Brifysgol Abertawe, ac mae ganddo MA mewn Cyfathrebu Gwleidyddol o Brifysgol Caerdydd. Bu Iestyn yn gweithio yn y sector busnes a'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag ym myd addysg yn ystod ei yrfa. Bu'n Arolygwr lleyg i Estyn ac yn Llywodraethwr ar fwrdd llywodraethu Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac ar fwrdd llywodraethu'r ysgol gynradd Gymraeg leol. Roedd Iestyn hefyd yn aelod o fwrdd cysgodol Cymwysterau Cymru. A chanddo ddua blentyn ifanc, mae ganddo ddiddordeb personol a phroffesiynol mewn darpariaeth addysg a sgiliau o safon uchel yng Nghymru.

## Siaradwyr y gynhadledd



**Dr Jeremy Evas**  
Ysgol y Gymraeg,  
Prifysgol Caerdydd

Mae Dr Jeremy Evas yn ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae ei ddiddordebau ymchwil ac addysgu yn ymwneud â pholisi a chynllunio ieithyddol, dulliau dysgu iaith dyneiddiol, lleoleiddio meddalwedd, technoleg a chynhyrchiant cyfeithu, a theori newid ymddygiad, yn benodol wrth ystyried e-wasanaethau dwyieithog.

Mae'n brif ymchwilydd ar brosiect ymchwil gan Lywodraeth Cymru sy'n archwilio'r amodau sy'n hwyluso trosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau yn y cartref. Ef yw awdur y Papur Gwyn META-NET Y Gymraeg yn yr Oes Digidol, ac mae wedi cyhoeddi a chyflwyno'n helaeth ym maes pensaernïaeth dewis a ieithoedd bychain.

Graddiodd yn y Gymraeg a'r Ffrangeg o Brifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1993, cyn mynd ymlaen i astudio ar gyfer ei ddoethuriaeth ar Bolisi a Chynllunio leithyddol gyda'r Athro Colin Williams yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Caerdydd, fel ag yr oedd bryd hynny. Derbyniodd radd doethur yn 2000 am ei draethawd *Rhwystrau ar Lwybr Dwyeithrwydd*.

Bu'n gyfarwyddwr ar ei gwmni cyfeithu ei hunan, a chyn ymuno â Phrifysgol Caerdydd yn 2012, roedd yn un o gyfarwyddwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn y swyddi hyn, bu'n arbenigo mewn technoleg iaith. Arweiniodd yr arbenigedd hwn at gydweithio rhyngddo ef a'i gydweithwyr â Microsoft (lleoleiddio Windows ac Office i'r Gymraeg), Google, a nifer o gwmniau eraill.

## Conference speakers



**Dr Jeremy Evas**  
School of Welsh,  
Cardiff University

Dr Jeremy Evas is a lecturer at the School of Welsh, Cardiff University. His research and teaching interests include language policy and planning, humanistic teaching methods, software localisation, translation technology and productivity, and behaviour change theory, especially as applied to bilingual e-services.

He is currently principal investigator on a research project for the Welsh Government which is examining the conditions that facilitate intergenerational language transmission in the home. He was author of the META-NET White Paper *The Welsh language in the digital age* and has published and presented widely on choice architecture and smaller languages.

He graduated in Welsh and French from the University of Wales, Aberystwyth in 1993, then read for a PhD in Language Policy and Planning with Professor Colin Williams at the then Department of Welsh, University of Wales Cardiff. His thesis *Rhwystrau ar Lwybr Dwyeithrwydd* [Barriers to Bilingualism] was successfully defended in 2000.

He has been director of his own translation company, and prior to joining Cardiff University in September 2012, he was one of the directors of the Welsh Language Board and the Welsh Language Commissioner. In these posts, he led on language technology. This saw him and colleagues undertake work in partnership with Microsoft (localisation of Windows and Office into Welsh), Google and many other organisations.



**Rafael Sainz  
de Rozas  
Bedialauneta**  
Cydlynnyd y Maes  
Diywylliant a Hawliau  
leithyddol, Ararteko

Mae Rafael Sainz de Rozas yn gyfreithiwr ac yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Gwlad y Basg. Mae'n uwch swyddog yn Swyddfa Ombudsmon Gwlad y Basg (Ararteko) ers 2006 lle mae'n gyfrifol am yr U nedau Cyfrawnder, Diwylliant a Hawliau leithyddol.

Mae ei waith gyda'r Ararteko yn ymwneud â diogelu hawliau sifil pan fo gweinyddiaeth gyhoeddus yn camdefnyddio pŵer ac awdurdod, a hynny'n cynnwys hawliau ieithyddol sy'n deillio o'r ffaith bod Basgeg (*Euskara*) a Sbaeneg ill dwy yn ieithoedd swyddogol. Mae'r Ararteko hefyd yn gwneud diagnosis o bolisiau cyhoeddus drwy adroddiadau arbennig wedi eu cyfeirio at y Senedd, ac yn llunio argymhellion er mwyn sicrhau gwarchodaeth well dros hawliau dynol, yn benodol ar gyfer pobl sy'n dioddef camwahaniaethu neu sydd mewn sefyllfa oedd o eithrio cymdeithasol.

Fel cyfreithiwr ac academydd, mae wedi gweithio â'r Bar Basgaidd ac â Phrifysgolion wrth roi dulliau ar waith er mwyn galluogi dechrau defnyddio *Euskara* yn y llysoedd, ac wedi bod yn rhan o'r gwaith tîm o ddatblygu corpwss o iaith a thermau cyfreithiol mewn Basgeg, gan gynnwys y cyfeithiad cyntaf o'r Cod Troseddol Sbaeneg i *Euskara*.



**Rafael Sainz  
de Rozas  
Bedialauneta**  
Culture and  
Language Rights Area  
Coordinator, Ararteko

Rafael Sainz de Rozas is a lawyer and lecturer at the University of the Basque Country. Since 2006 he has been a senior officer at the Office of the Basque Ombudsman (Ararteko), where he is in charge of the Justice, Culture and Language Rights Units.

His work with the Ararteko involves safeguarding civil rights vis-à-vis abuses of power and authority by public administration, including language rights that derive from the co-officiality of Basque (*Euskara*) and Spanish languages. The Ararteko also diagnoses public policies through feature reports addressed to the Parliament, and formulates recommendations in order to secure enhanced protection of human rights, particularly for people suffering from discrimination or social exclusion.

As a lawyer and an academic, he has worked with the Basque Bar and Universities in implementing tools and protocols for starting using *Euskara* in court, and took part in the teamwork that helped to develop a corpus of legal discourse and terms in Basque, including the first translation of the Spanish Criminal Code into *Euskara*.

## Siaradwyr y gynhadledd



**Dr Ioan  
Matthews**  
Prif Weithredwr

Dr Ioan Matthews yw Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin, graddiodd mewn Hanes ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd a sicrhau doethuriaeth yno ar hanes cymdeithasol y maes glo carreg. Bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin am un flynedd ar ddeg, ac yn bennaeth yr Ysgol Hanes o 1999 hyd 2002. Rhwng 2002 a 2011 bu'n gweithio ym maes addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol a bu'n Gyfarwyddwr y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (a ddaeth yn rhan o'r Coleg Cymraeg wedi hynny) o 2005 hyd 2011.

## Conference speakers



**Dr Ioan  
Matthews**  
Chief Executive

Dr Ioan Matthews is the Chief Executive of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Originally from Carmarthen, he graduated in History from the University of Wales, Cardiff, and then obtained a PhD from the same university on the social history in the field of anthracite coal. He was a lecturer at the Trinity College, Carmarthen for eleven years, and was the head of the School of History from 1999 to 2002. Between 2002 and 2011, he worked in the field of Welsh medium education nationally, and was Director of the Welsh Medium Higher Education Centre (which later became part of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol) from 2005 to 2011.



**Dr Dafydd  
Trystan  
Cofrestrydd**

Dafydd Trystan Davies yw Cofrestrydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Derbyniodd ei ddoethuriaeth o Brifysgol Cymru, Aberystwyth, am ei waith ar globaleiddio a'r economi wleidyddol Gymreig. Yn ystod ei gyfnod fel darlithydd ym maes gwleidyddiaeth Cymru yn Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth, daeth yn adnabyddus am ei waith ymchwil ar dueddiadau pleidleisio yng Nghymru. Bu hefyd yn gweithio fel ymgynghorydd i BBC Cymru, a rhwng 2002 a 2007 bu'n brif weithredwr Plaid Cymru. Mae'n gyfarwyddwr sawl menter gymdeithasol gan gynnwys Hyfforddiant Beicio Cymru a TooGoodToWaste, ac yn gadeirydd ar Rhedeg Cymru a Chorff Llywodraethol Ysgol Hamadryad.



**Dr Dafydd  
Trystan  
Registrar**

Dafydd Trystan Davies is the Registrar for the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. He studied for his PhD on globalization and the Welsh political economy at the University of Wales, Aberystwyth. During his period as a lecturer in the field of Welsh politics in the International Politics Department at Aberystwyth University, he became known for his research on voting trends in Wales. He also worked as a consultant for BBC Wales, and was the chief executive of Plaid Cymru between 2002 and 2007. He is the director of many social enterprises including Cycle Training Wales and TooGoodToWaste and is the chairman of Run Wales and the Governing Body of the new Cardiff Welsh medium primary school, Ysgol Hamadryad.

## Siaradwyr y gynhadledd



**Rhodri Glyn Thomas**  
Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Apwyntiwyd Rhodri Glyn Thomas yn Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Ebrill 2016. Cyn hynny bu'n Aelod Cynulliad etholaeth Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr am 17 mlynedd.

Etholwyd Rhodri Glyn Thomas i'r Cynulliad am y tro cyntaf ym mis Mai 1999. Mae ei ddiddordebau gwleidyddol yn cynnwys amaethyddiaeth a'r economi wledig, Ewrop, a materion cymdeithasol a thrafnidiaeth a bu'n Weinidog dros Dreftadaeth rhwng 2007 a 2008.

Gwasanaethodd Rhodri fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, fel aelod o'r Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol, ac fel aelod o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Bu hefyd yn Ilefarydd Plaid Cymru ar Lywodraeth Leol, Cymunedau ac Ewrop ac fe'i etholwyd yn Gomisiynydd y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn 2013 derbyniodd Rhodri wobr Ymgyrchwr y Flwyddyn am ei waith yn sicrhau na fyddai'n rhaid i 320,000 o gartrefi yng Nghymru dalu budd-dal treth y Cyngor o ganlyniad i doriad yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU. Yna, mewn ymgais i fynd i'r afael â'r cynydd mewn cyflog gweithredol, bu hefyd yn llwyddiannus yn newid y ddeddfwriaeth fel bod cyflog a phecynnau cydnabyddiaeth uwch swyddogion cynhorau bellach yn cael eu harchwilio gan Banel Annibynnol.

Cynrychiolodd Rhodri Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Bwyllgor Rhanbarthau yr Undeb Ewropeaidd. Arweiniodd drafodaethau'r pwyllgor gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn seiliedig ar ei adroddiad ar synergerddau rhwng cyllidebau cenedlaethol ac is-wladwriaethol. Cyflwynodd Rhodri ei adroddiad drwy gyfrwng y Gymraeg - cam arloesol yn hanes y Pwyllgor Ewropeaidd.

## Conference speakers



**Rhodri Glyn Thomas**  
President of the National Library of Wales

Rhodri Glyn Thomas was appointed to the post of President of the National Library of Wales in April 2016 after standing down from the Assembly having served 17 years as the AM for Carmarthen East and Dinefwr.

Rhodri Glyn Thomas was first elected to the Assembly in May 1999. His political interests include agriculture and the rural economy, Europe, and social and transport issues. He was named Minister for Heritage between 2007 and 2008.

He has served as Chair of the Rural Development Sub-Committee, member of the European and External Affairs Committee, and the Sustainability Committee. He was also Plaid Cymru's spokesperson for Local Government, Communities, and Europe, and was appointed to the role of National Assembly Commissioner.

In 2013 Rhodri received the Campaigner of the Year Award for his work in protecting 320,000 households in Wales from having to pay towards Council Tax Benefit as a result of budget cuts from the UK Government. In an attempt to tackle soaring levels of executive pay, Rhodri successfully changed legislation so that the salary and remuneration packages of senior council officers must now be scrutinised by an independent Remuneration Panel.

Rhodri represented the National Assembly for Wales on the European Union's Committee of the Regions. He led the committee's discussions with the European Commission based on his report into the synergies between national and sub-state budgets. In what was a first for the European Committee, Rhodri delivered his report through the medium of Welsh.



**Seán Ó Cuirreáin**

Seán Ó Cuirreáin oedd Comisiynydd Iaith cyntaf Iwerddon a bu yn y swydd am 10 mlynedd (2004–2014). Ef oedd Ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith.

Ac yntau'n siarad Gwyddeleg fel ei iaith gyntaf, graddiodd o Goleg Prifysgol Galway ac aeth i weithio yn y maes darlleud am dros 20 mlynedd, yn bennaf gysylltiedig â newyddion a materion cyfoes. Cyn cael ei benodi'n Gomisiynydd Iaith, bu'n Ddirprwy bennaeth RTÉ Raidió na Gaeltachta, gorsaf radio Wyddeleg genedlaethol Iwerddon.

Mae'n awdur cydnabyddedig a enillodd wobr am ei lyfr ar y llofruddiaethau ym Maamtrasna lle lladdwyd teulu o bump mewn ardal anghysbell yng ngorllewin Iwerddon yn 1882 a chrogwyd a charcharwyd dynion diniwed yn dilyn dystiolaeth bwriadol dwyllodrus. Mae'r llyfr bellach yn cael ei droi'n ddrama ddogfennol ar gyfer TG4, y gwasanaeth teledu Gwyddeleg cenedlaethol.

Mae Seán Ó Cuirreáin yn byw yn Gaeltacht Connemara.



**Seán Ó Cuirreáin**

Seán Ó Cuirreáin was Ireland's first Language Commissioner who served in that position for 10 years (2004–2014). He was the founding Secretary of the International Association of Language Commissioners.

A native Irish speaker, he is a graduate of University College, Galway and worked in journalism and broadcasting for more than 20 years, primarily in news and current affairs. Prior to his appointment as Language Commissioner he had been Deputy Head of RTÉ Raidió na Gaeltachta, Ireland's national Irish language radio service.

He is author of a prize-winning book on the Maamtrasna murder – the killing of a family of five in a remote area of the west of Ireland in 1882 and the subsequent hanging and imprisonment of innocent men as a result of perjured evidence – which is currently being produced as a feature length drama-documentary for TG4, the national Irish language TV service.

He lives in the Connemara Gaeltacht.

## Siaradwyr y gynhadledd



**Gethin Edwards**

Uwch Swyddog Hybu a Hwyluso, Comisiynydd y Gymraeg

Mae Gethin Edwards yn arwain Tîm Hybu a Hwyluso Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n gweithio i Comisiynydd y Gymraeg ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd yn 2012, a chyn hynny bu'n gweithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Arbenigedd gwreiddiol Gethin oedd cynghori elusennau sydd heb orfodaeth statudol i gynnig gwasanaethau Cymraeg ond sydd yn awyddus i gynnig y ddarpariaeth er mwyn cwrdd ag anghenion eu defnyddwyr. Erbyn hyn mae Gethin hefyd yn gweithio gyda busnesau ac elusennau o bob maint er mwyn eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Tîm Hybu a Hwyluso'n gweithio i sicrhau bod busnesau ac elusennau anstatudol o bob math yn deall pam bod buddsoddi yn y Gymraeg ar sail wirfoddol yn fuddsoddiad synhwyrol i bawb. Maen nhw'n cynnal ymchwil i'r farchnad mewn meysydd o flaenoriaeth er mwyn adnabod y galw am wasanaethau Cymraeg. Bydd y tîm wedyn yn mynd ati i gynghori sefydliadau ar sut i gynllunio gwasanaethau. Ymyst y meysydd o flaenoriaeth ar hyn o bryd mae chwaraeon, amaeth, archfarchnadoedd, banciau ac elusennau rhwngwladol. Cewch ddysgu rhagor am waith y tîm drwy ymweld â gwefan hybu Comisiynydd y Gymraeg: [www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu](http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu)



**Gruffydd Jones**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2014, lansiodd y Cynulliad gyfleouster cyfeithu peirianyddol ar gyfer y Gymraeg ar raglenni Microsoft. Bydd y sgwrs gan Gruffydd Jones yn esbonio sut a pham y digwyddodd hyn a sut y mae cyfeithu peirianyddol yn cael ei ymgorffori yng ngwaith y Cynulliad. Bydd hefyd yn amlinellu'r buddion - a rhai o'r peryglon - o ddefnyddio cyfeithu peirianyddol yn y gweithle.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocratiaidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Gruffydd wedi bod yn gweithio i'r Cynulliad ers 2008 ac mae'n aelod o'r tîm bach sy'n gweithredu Cynllun Leithoedd Swyddogol y Cynulliad. Y cynllun yw sail statudol y Cynulliad ar gyfer cyflawni gwasanaethau dwyieithog; prif amcan y cynllun yw gwrieddu uchelgais y Cynulliad o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Un o ddyletswyddau Gruffydd yw cynnal y berthynas â Microsoft yn dilyn lansio'r prosiect cyfeithu peirianyddol.

## Conference speakers



**Gethin Edwards**

Senior Promotion and Facilitation Officer, Welsh Language Commissioner

Gethin Edwards leads the Promotion and Facilitation Team within the Welsh Language Commissioner's office. He has been working for the Welsh Language Commissioner since the Commissioner's office was established in 2012, and previously worked for the Welsh Language Board and the Welsh Government. Gethin initially specialised in offering advice to charities that are not statutorily obliged to offer Welsh language services but are eager to do so in order to meet their users' needs. This work has extended as Gethin now works with businesses and charities of various sizes encouraging them to take advantage of every opportunity to use the Welsh language.

The Promotion and Facilitation Team works to ensure that non-statutory businesses and charities understand why voluntarily investing in the Welsh language is an overall wise investment. They conduct market research in prioritised fields in order to identify the need for Welsh services. The team then goes on to offer advice to organisations with regards to organising their services. The areas of priority currently include sport, agriculture, supermarkets, banks and international charities. You can find more information on the team's work by visiting the Welsh Language Commissioner's promotion and facilitation website: [www.welshlanguagecommissioner.wales/hybu](http://www.welshlanguagecommissioner.wales/hybu)



**Gruffydd Jones**

National Assembly for Wales

In 2014, the National Assembly for Wales launched Welsh as a supported language on Microsoft applications. Gruffydd Jones' talk will explain how and why this came about and how machine translation has been incorporated into the Assembly's work. It will also outline the benefits, as well as some of the pitfalls, of machine translation as a language technology tool.

The National Assembly for Wales is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people, makes laws for Wales, agrees Welsh taxes and holds the Welsh Government to account. Gruffydd has worked for the Assembly since 2008 and is a member of the small team that implements its Official Languages Scheme. The scheme is the statutory basis upon which the Assembly provides bilingual services; its main aim is to deliver the Assembly's ambition to be a truly bilingual organisation. One of Gruffydd's duties is to maintain the relationship with Microsoft following the launch of the machine translation project.

## Siaradwyr y gynhadledd



Graham Fraser

Mae Graham Fraser yn newyddiadurwr ac awdur o Canada ac ef oedd y chweched i'w benodi'n Gomisiynydd leithoedd Swyddogol Canada. Fe'i penodwyd i'r swydd ym mis Hydref 2006 a bu yno hyd nes ei ymddeoliad yn 2016. Ef hefyd oedd Cadeirydd cyntaf Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr laith.

Astudiodd Graham Fraser ym Mhrifysgol Toronto lle enillodd raddau BA ac MA mewn Hanes. Yn ystod ei yrfa hir fel newyddiadurwr, bu'n ysgrifennu yn y ddwy iaith swyddogol ar faterion yn ymneud â Chanada, a hynny'n cynnwys polisi tramor a diwylliant, dadleuon a thrafodaeth cyfansoddiadol, a gwleidyddiaeth drefol, daleithiol, genedlaethol a rhyngwladol. Gweithiodd i'r *Toronto Star*, *The Globe and Mail*, *Maclean's*, *The Gazette*, ac fel colofnydd gwadd i *Le Devoir*, yn gohebu o Toronto, Montreal, Quebec City, Washington ac Ottawa.

Mae'n awdur pum llyfr: *Fighting Back: Urban Renewal in Trefann Court* (1972); *Playing for Keeps: The Making of the Prime Minister* (1988); *PQ: René Lévesque and the Parti Québécois in Power* (1984); *Vous m'intéressez: Chroniques* (2001), a *Sorry, I Don't Speak French: Confronting the Canadian crisis that won't go away* (2006). Mae wedi derbyn pum gradd doethur er anrhedd, wedi ei anrheddu'n Chevalier de l'Ordre de la Pléiade gan yr Assemblée parlementaire de la Francophonie, ac wedi ei wobrwyd â Medal Jiwbili'r Frenhines.

## Conference speakers



Graham Fraser

Graham Fraser is a Canadian journalist and author who served as Canada's sixth Commissioner of Official Languages from October 2006 until his retirement in 2016. He was the first Chair of the International Association of Language Commissioners.

Graham Fraser studied at the University of Toronto, where he obtained a BA and an MA in History. During a long career in journalism, he wrote in both official languages on Canadian issues, including foreign and cultural policy, constitutional debates and discussions, and municipal, provincial, national and international politics. He worked at the *Toronto Star*, *The Globe and Mail*, *Maclean's*, *The Gazette*, and as a guest columnist for *Le Devoir*, reporting from Toronto, Montreal, Quebec City, Washington and Ottawa.

He is the author of five books: *Fighting Back: Urban Renewal in Trefann Court* (1972); *Playing for Keeps: The Making of the Prime Minister* (1988); *PQ: René Lévesque and the Parti Québécois in Power* (1984); *Vous m'intéressez: Chroniques* (2001), and *Sorry, I Don't Speak French: Confronting the Canadian crisis that won't go away* (2006). He has received five honorary doctorates, was named a Chevalier de l'Ordre de la Pléiade by the Assemblée parlementaire de la Francophonie, and was awarded the Queen's Jubilee Medal.

## Teyrned i Dr Peadar Ó Flatharta (1955–2016)

Roedd colli Dr Peadar Ó Flatharta fis Rhagfyr diwethaf yn ysgytiad i nifer a oedd yn rhannu ei angerdd a'i frwdrydedd yngylch gwarchod ieithoedd sydd dan fygythiad. Roedd yn academydd adnabyddus ac yn uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Dulyn, ac ef oedd un o drefnwyr y gynhadledd ryngwladol gyntaf ar gyfer Comisiynwyr laith a gyhalwyd yn Nulyn, Iwerddon, ym mis Mai 2013. Yn sgil y gynhadledd, bu ynglwm ac yn weithgar wrth sefydlu IALC.

Mewn anerchiad byr, bydd Seán Ó Cuirreáin, Comisiynydd laith cyntaf Iwerddon ac ysgrifennydd cyntaf IALC, yn rhoi teyrned i Dr Ó Flatharta ac yn ein hatgoffa o rai o'i brif lwyddiannau.

## Tribute to Dr Peadar Ó Flatharta (1955–2016)

The sudden passing of Dr Peadar Ó Flatharta in December of last year shocked many who had shared his passion for the protection and promotion of threatened languages. The noted academic, a senior lecturer in Dublin City University, was one of the joint organisers of the first international conference of Language Commissioners held in Dublin, Ireland in May 2013. He was actively involved in the subsequent establishment of IALC.

In a short address, Seán Ó Cuirreáin, Ireland's first Language Commissioner and the founding secretary of IALC, pays tribute to Dr Ó Flatharta and recalls some of his most significant achievements.



# Rhaglen y dydd

Bydd ardal arddangos yng Nghyntedd Awen drwy gydol y diwrnod.			
AMSER	GWEITHGAREDD	SIARADWR	LLEOLIAD
9.00	Cofrestru		Prif ddesg groeso
9.30	Croeso a sylwadau agoriadol	Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg a Chadeirydd IALC	Ystafell Preseli
9.35	Anerchiad gan y prif noddwr	Alan Woods, Prif Weithredwr VTCT	Ystafell Preseli
9.40	Croeso i Gymru	Disgyblion Ysgol Hamadryad	Ystafell Preseli
9.50	Anerchiad agoriadol y gynhadledd	Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes	Ystafell Preseli
<b>Cadeirydd y sesiwn:</b> Lowri W. Williams, Uwch Swyddog Polisi, Comisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn eu cyflwyniadau bydd Dr Jeremy Evas a Rafael Sainz de Rozas Bedialauneta yn ffurio panel er mwyn parhau â'r drafodaeth ac ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.			
10.15	Don't make me think!: Syniadau yngylch sut y gall e-wasanaethau gefnogi ieithoedd lleiafrifol	Dr Jeremy Evas, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	Ystafell Preseli
10.35	TG yn ei lle?: Hyrwyddo hawliau ieithyddol drwy dechnoleg gwylbodaeth mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac yn y llysoedd	Rafael Sainz de Rozas Bedialauneta, Cydlynnydd y Maes Diwylliant a Hawliau ieithyddol, Ararteko	Ystafell Preseli
11.15	<b>EGWYL</b>	Noddyd gan Method 4 	Cyntedd Awen
<b>Cadeirydd y sesiwn:</b> Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil, Comisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn eu cyflwyniadau bydd François Boileau ac Iestyn Davies yn ffurio panel er mwyn parhau â'r drafodaeth ac ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.			
11.45	Arferion ieithyddol mewn cyd-destun lleiafrifol	François Boileau, Comisiynydd Gwasanaethau Ffrangeg Ontario	Ystafell Preseli
12.05	Iaith gwaith: mynd i'r afael â dwyieithrwydd fel sgil	Iestyn Davies, Prif Weithredwr Colegau Cymru	Ystafell Preseli
12.45	<b>CINIO</b>		Cyntedd Awen
<b>Cadeirydd y sesiwn:</b> Gwenth Price, Cyfarwyddwr Cydymffurfio a Gorfodi, Comisiynydd y Gymraeg.			
13.30	Cynllunio darpariaeth Addysg Uwch a hyfforddiant gweithlu gyda sylw penodol i faes iechyd a gofal	Dr Dafydd Trystan a Dr Ioan Matthews, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Ystafell Preseli
14.15	Yr iaith Gymraeg a Sefydliadau Cymru	Rhodri Glyn Thomas, Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Ystafell Preseli
14.40	Teyrned i Dr Peadar Ó Flatharta (1955-2016)	Seán Ó Cuirréain, Yr An Coimisinéir Teanga cyntaf	Ystafell Preseli
14.45	<b>EGWYL a chyflie i ddewis ystafell astudiaeth achos. Bydd modd i gynadleddwyr fynychu dwy o'r tair sesiwn isod.</b>	Noddyd gan Capital Law 	
15.00	<b>Astudiaethau achos:</b>		
	1. Ffafrio dull systemig o weithio er mwyn bod mor effeithiol â phosibl	Katherine d'Entremont, Comisiynydd leithoedd Swyddogol New Brunswick	Ystafell Preseli
	2. Cyfeithu perianyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol: y buddion a'r peryglon	Gruffydd Jones, Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Ystafell Japan
	3. Amdani!: Datblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd ym maes chwaraeon	Gethin Edwards, Uwch Swyddog Hybu a Hwyluso, Comisiynydd y Gymraeg	Ystafell David Morgan
<b>Cadeirydd y sesiwn:</b> Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg.			
16.15	<b>Prif anerchiad y gynhadledd:</b> Yr heriau parhaus mewn gweithle dwyieithog, a gwrsi eraill a ddysgwyd	Graham Fraser, Cyn-gomisiynydd leithoedd Swyddogol Canada	Ystafell Preseli
17.00	Clo swyddogol y gynhadledd	Meri Huws	Ystafell Preseli

# Schedule

There will be an exhibition area in the Awen Foyer throughout the day.			
TIME	EVENT	SPEAKER	LOCATION
9.00	Registration		Main welcome desk
9.30	Welcome and opening observations	Meri Huws, Welsh Language Commissioner and Chair of IALC	Preseli Room
9.35	Main sponsor's welcome address	Alan Woods, Chief Executive of VTCT	Preseli Room
9.40	Welcome to Wales	Pupils of Ysgol Hamadryad	Preseli Room
9.50	The conference opening speech	Alun Davies AM, Minister for Lifelong Learning and Welsh Language	Preseli Room
<b>Chair of session:</b> Lowri W. Williams, Senior Policy Officer, Welsh Language Commissioner. Following their presentations Dr Jeremy Evas and Rafael Sainz de Rozas Bedialauneta will form a panel in order to continue the discussion and respond to questions from the audience.			
10.15	Don't make me think!: Ideas for the future use of services in minority languages	Dr Jeremy Evas, School of Welsh, Cardiff University	Preseli Room
10.35	Basque language: is IT right on? Promoting language rights through IT in public administration and courts	Rafael Sainz de Rozas Bedialauneta, Culture and Language Rights Area Coordinator, Ararteko	Preseli Room
11.15	<b>INTERVAL</b>	Sponsored by Method 4 	Awen Foyer
<b>Chair of session:</b> Dyfan Sion, Director of Policy and Research, Welsh Language Commissioner. Following their presentations François Boileau and Iestyn Davies will form a panel in order to continue the discussion and respond to questions from the audience.			
11.45	Language practices in a minority linguistic environment	François Boileau, French Language Services Commissioner of Ontario	Preseli Room
12.05	Iaith gwaith: getting to grips with bilingualism as a skill	Iestyn Davies, Chief Executive of Colegau Cymru	Preseli Room
12.45	<b>LUNCH</b>		Awen Foyer
<b>Chair of session:</b> Gwenth Price, Director of Enforcement and Compliance, Welsh Language Commissioner.			
13.30	Planning Higher Education provision and workforce training in health and social care	Dr Dafydd Trystan and Dr Ioan Matthews, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Preseli Room
14.15	The Welsh Language and Organisations in Wales	Rhodri Glyn Thomas, President of the National Library of Wales	Preseli Room
14.40	Tribute to Dr Peadar Ó Flatharta (1955-2016)	Seán Ó Cuirréain, Former An Coimisinéir Teanga	Preseli Room
14.45	<b>INTERVAL and opportunity to choose a case study room. Delegates will be able to choose two of the three sessions listed below.</b>		Sponsored by Capital Law 
15.00	<b>Case studies:</b>		
	1. Favouring a systemic approach to our work for maximum impact	Katherine d'Entremont, Commissioner of Official Languages for New Brunswick	Preseli Room
	2. Machine translation at the National Assembly for Wales: the benefits and pitfalls	Gruffydd Jones, National Assembly for Wales	Japan Room
	3. Amdani!: Developing the Welsh language and bilingualism in sports	Gethin Edwards, Senior Promotion and Facilitation Officer, Welsh Language Commissioner	David Morgan Room
<b>Chair of session:</b> Meri Huws, Welsh Language Commissioner.			
16.15	<b>Key note speech:</b> The continuing challenge of a bilingual workplace, and other lessons learned	Graham Fraser, Former Commissioner of Official Languages of Canada	Preseli Room
17.00	Formal closing of the conference	Meri Huws	Preseli Room

# Nodiadau

## Notes

# Nodiadau

## Notes



CYMDEITHAS RYNGWLADOL Y COMISIYNWYR IAITH  
INTERNATIONAL ASSOCIATION OF LANGUAGE COMMISSIONERS



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Noddwyd gan | Sponsored by



**VTCT**



#IALC2017